



## Cwestiynau ac Atebion i'ch sylw

### A oes disgwyl i fy mhlentyn fynychu'r ysgol o Fedi ymlaen?

Oes, oni bai ei bod yn hunan ynysu, neu'n sâl.

### A oes rhaid i mi gael gwahoddiad i yrru fy mhlentyn i'r ysgol?

Oes, hyd at y 14eg o Fedi.

### Pa beth fydd fy mhlentyn ei angen?

Bydd angen i'ch plentyn ddod â'r canlynol:

- Eu potel ddŵr eu hunain

## Glanhau

### Sut y bydd yr ysgol yn cael ei glanhau wedi iddi ail agor?

Bydd yr ysgol yn cael ei glanhau yn ystod y dydd gan lanhawyr a fydd wedi eu hyfforddi'n addas. Bydd y glanhawyr yn rhoi sylw penodol i fannau lle bo'r plant a'r staff yn eu cyffwrdd yn rheolaidd gan, ddilyn protocolau glanhau diogel bob amser. Mae aelod ychwanegol o staff wedi ei apwyntio ar gyfer hyn.

### A ydym yn disgwyl i ddisgyblion lanhau eu gofod gweithio?

Mae disgwyl i'r disgyblion gymryd camau rhesymol i sicrhau bod yr amgylchedd gwaith yn cael ei gadw mor lân â phosibl. Pan fo'n briodol (ac yn ôl eu hoed/datblygiad), gellir annog y disgyblion i lanhau eu manau personol eu hunain, er enghraifft drwy roi 'wipes' iddynt eu defnyddio.

## Toiledau

### Pa mor aml fydd toiledau'r ysgol yn cael eu glanhau?

Bydd y toiledau'n cael eu glanhau wedi amser egwyl a chinio ac ar ddiwedd pob dydd.

## Diogelu fy Mhlentyn

### Beth pe bai fy mhlentyn angen cymorth cyntaf yn ystod y dydd?

Fe fydd staff yr ysgol yn darparu cymorth cyntaf yn y drefn arferol. Fodd bynnag byddant yn gwisgo offer amddiffyn pwrpasol.

### Beth pe bai fy mhlentyn yn mynd yn sâl yn ystod y diwrnod ysgol?

Bydd disgwyl i rieni gasglu eu plentyn o'r ysgol; ni ddarperir cludiant.

### Pa fesurau fydd mewn lle i ddiogelu fy mhlentyn?

Mae nifer o fesurau mewn lle i ddiogelu eich plentyn e.e.



- Mae ystafell ynysu benodol ar gael, pe bai plentyn neu aelod o staff yn dechrau teimlo'n sâl yn ystod y dydd
- Ni fydd pawb yn cael amserau egwyl a chinio ar yr un pryd
- Bydd ardaloedd cyffredin yn cael eu sychu'n lân yn rheolaidd
- Bydd yr ysgol yn cael ei glanhau'n drylwyr bob nos
- Bydd arwyddion clir o amgylch yr ysgol yn pwysleisio pwysigrwydd golchi dwylo, hylendid a chadw pellter cymdeithasol
- Byddwn yn sicrhau fod ffenestri a drysau ar agor fel bod digon o aer yn cylchredeg drwy'r adeilad.
- Bydd disgyblion yn cael eu gollwng wrth y brif fynedfa. Rydym wedi trefnu system un ffordd. Dilynwch y saethau os gwelwch yn dda.

Mae gan Ysgol Llanllechid ei chynllun ailagor graddol ei hun, ac mae cyfarfod safle wedi ei gynnal yn dilyn canllawiau'r Awdurdod Addysg. Mae gan Ysgol Llanllechid, fel pob ysgol ei Hasesiad Risg ei hun.

### **Pwy sydd yn gwneud yn siŵr fod asesiadau risg yn addas ac o ansawdd?**

Bydd tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ac Adran Addysg Cyngor Gwynedd yn gwirio ansawdd yr asesiadau risg.

### **Cyffredinol**

#### **A oes rhaid i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol?**

Gofynnir i'r plant wisgo gwisg ysgol, os gwelwch yn dda.

#### **A fydd trefniadau gwahanol ar ddechrau a diwedd y dydd wrth i blant fynd i mewn i adeilad yr ysgol?**

Bydd. Bydd yr ysgol wedi marcio'r manau aros yn glir (e.e. drwy ddefnyddio arwyddion, 'bollards' neu dâp) i ddiogelu disgyblion sy'n aros i fynd i mewn i'r adeilad.

#### **Oes yna unrhyw ofynion ynglŷn â phwy fydd yn danfon y disgyblion i'r ysgol?**

Bydd y disgyblion yn cael eu hanfon at giat Ysgol Llanllechid, a bydd aelod o staff yno i'ch croesawu. Gofynnwn i rieni/gwarcheidwaid i beidio a dod ar iard yr ysgol. Ond, gofynnwn i reini y plant bach Dosbarth Meithrin i ddod a'u plant at ddrws y dosbarth Meithrin ar Fedi'r 8fed sef dosbarth Ms Rhian Haf, lle y bydd Ms Rhian Haf ac aelodau eraill o staff yno yn aros amdanoch.

#### **Pe byddwn i'n dymuno trafod mater penodol gyda Mrs Davies-Jones, a oes modd i mi gyfarfod wyneb yn wyneb?**

Na fydd. Mae'r Awdurdod Lleol yn argymhell y dylid cysylltu gyda'r ysgol ar y ffôn yn y lle cyntaf.

#### **Sut y dylid rheoli amseroedd egwyl?**

Bydd staff ar gael i oruchwylio eich plentyn bob amser egwyl a chinio. Mae gennym amserlen benodol ar gyfer yr amseroedd hyn sy'n golygu y bydd llai o ddisgyblion allan ar yr un pryd. Bydd hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob fynedfa i wneud yn siŵr bod disgyblion yn gallu golchi eu dwylo wrth iddynt adael adeilad yr ysgol a mynd yn ôl i mewn.

Bydd offer ar yr iard chwarae yn cael ei lanhau cyn i grwpiau gwahanol ei ddefnyddio.



## Cinio Ysgol

### A fydd cinio ysgol ar gael?

Bydd.

### Os yn dewis rhoi pecyn bwyd i'ch plentyn, a oes rheolau o ran beth a ddylid ei roi yn pecyn bwyd?

Oes. Dylid paratoi pecyn bwyd lle nad oes angen i aelod o staff gynorthwyo'r plant i'w agor nac ychwaith helpu i agor ei gynnwys. Dylid osgoi pcedi plastic lle na all plant, yn enwedig plant ifanc eu hagar.

Yn unol â chanllawiau ysgolion yn gyffredinol, dylid ceisio paratoi bocs bwyd maethlon, gan osgoi cynhwysion all arwain i blant dagu megis grawnwin.

### A fydd clwb brechwast?

Bydd, fe fydd Clwb Brecwast.

### Aelodau Newydd o Staff

Dros wyliau'r haf mae 4 aelod newydd o staff wedi eu penodi. Rydym yn falch o'u croesawu yn gynnes i'n plith.

- Mr Sion Llywelyn (Athro Blwyddyn 6)
- Ms Lois Wiliam (Cymhorthydd Dosbarth)
- Ms Chloe Simmonds (cymhorthydd Dosbarth)
- Mr Iwan Williams ( Cymhorthydd Dosbarth)

### Amserlen ar Gyfer Gollwng a Chasglu Disgyblion Medi 2020

Dosbarthiadau/ Classes	Dyddiadau Dechrau Start Date	Gollwng y Disgyblion/Pupils Drop Off	Derbyn/Pupils Pick-up
Meithrin/Nursery	Mawrth/Tuesday 8/9/20	9:30	11:30
Derbyn/Reception	Iau/Thursday 3/9/20	8:45	2:45
Blwyddyn/Year 1	Llun/Monday 7/9/20	8:45	2:45
Blwyddyn/Year 2 a 3	Llun/Monday 7/9/20	8:55	2:55
Blwyddyn/Year 4	Llun/Monday 7/9/20	9:05	3:20
Blwyddyn/Year 5	Iau/Thursday 3/9/20	9:05	3:20
Blwyddyn/Year 6	Iau/Thursday 3/9/20	9:05	3:20

